| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 – Dirprwyo Awdurdod** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I ddirprwyo pwerau ychwanegol i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fydd yna'n gallu dirprwyo ymhellach i'r swyddogion perthnasol o fewn y Gwasanaeth, mewn perthynas â chyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a Rheoliadau Perthnasol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo pwerau ychwanegol i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fydd yna'n dirprwyo ymhellach i'r swyddogion perthnasol o fewn y Gwasanaeth, mewn perthynas â chyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a Rheoliadau Perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y pwerau dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ynghyd ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan y ddeddf honno ac unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau wedi hynny, ac i weithredu'r holl bwerau perthnasol eraill dan ddeddfwriaeth o'r fath yn cael eu dirprwyo i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

3.2 Bod Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd hefyd yn derbyn yr awdurdod i ddirprwyo'r pwerau hyn ymhellach i Swyddogion o fewn y gwasanaeth sydd â'r gallu, sgiliau, cymwysterau ac awdurdodiadau perthnasol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn creu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol ar gyfer Cymru ac yn ei gwneud yn hanfodol bod busnesau bwyd perthnasol Cymru yn arddangos eu sticer System Sgorio Hylendid Bwyd mewn man amlwg yn eu heiddo. Mae'n ofynnol yn ôl cyfraith i fusnesau bwyd perthnasol arddangos y 'sticer arddull newydd' a roddwyd gan y Swyddog Diogelwch Bwyd yn dilyn arolygon a wnaed dan y cynllun statudol ar ôl 28 Tachwedd 2013. Cyn hyn penderfyniad y busnes bwyd oedd arddangos eu sticer ai peidio.

4.2 Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio’n agos gydag Awdurdodau Lleol Cymru i sicrhau trosglwyddiad hawdd o’r cynllun cyfredol. Mae deunydd canllawiau sy’n egluro’r goblygiadau ar gyfer busnesau ar gael ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae’r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau ar gyfer apeliadau a hawl i ymateb ynghyd â chosbau am beidio ag arddangos y sticer sgorio newydd. Yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod busnesau bwyd yn ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â’r gofynion newydd.

4.3 Disgwylir y bydd gofyniad ‘arddangos hanfodol’ newydd yn gymhelliant sylweddol i annog gwelliant mewn safonau diogelwch bwyd a hylendid yn y dyfodol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Datblygu'r economi leol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

**6.1 Adnoddau sydd eu hangen (staff neu arian)** – Bydd y llwyth gwaith yn cael ei gyflawni gan y staff cyfredol, fodd bynnag bydd angen ystyried darpariaeth yn ystod cyfnod mamolaeth er mwyn sicrhau bod y llwyth gwaith yn cael ei gyflawni o fewn y terfynau amser a osodwyd yn y Ddeddf er mwyn sgorio busnesau bwyd. Angen ystyriaeth ychwanegol o ran y gyllideb ar gyfer cyfnod mamolaeth, bydd angen ei reoli o fewn cyllideb gyfredol y gwasanaeth.

**6.2 TGCh-** gellir ymgorffori’r cynllun sgorio newydd o fewn system y gronfa ddata gyfredol, dim costau ychwanegol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i’r adroddiad.

**7.1 Cydraddoldeb / Hawliau Dynol** – Asesiad eisoes wedi’i ystyried / ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru a’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y broses ymgynghori gan arwain at ymddeddfiad a llunio rheoliadau. Mae’r Ddeddf newydd yn cyflwyno dyletswydd statudol i awdurdod lleol i orfodi’r ddeddfwriaeth hon.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac eraill?

8.1 Nid yw’r eitem hon yn bodloni’r meini prawf er mwyn ei hatgyfeirio at y Pwyllgor Archwilio. Mae’r eitem eisoes wedi’i hymgynghori gan Lywodraeth Cymru a’r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rhan o’r broses a arweiniodd at ymddeddfiad a llunio'r rheoliadau.

## 9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol pellach, caiff unrhyw gostau ychwanegol eu diwallu o fewn cyllidebau presennol.

**10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Methiant posibl i gyflawni dyletswyddau statudol a risg i enw da wedi'u nodi pe bai'r Cyngor yn methu â darparu awdurdod dirprwyedig a gorfodi'r ddeddfwriaeth.

Gallai eiddo bwyd gyda sgôr hylendid isel osgoi cael eu cosbi am beidio ag arddangos eu sgôr diweddaraf. Bydd hyn yn camarwain y cyhoedd a ni fydd yn annog eiddo gyda sgôr gwael i gyflawni'r gwelliannau hanfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ac Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972